

Gosber



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

Gosber

Trefn yr oedfa

1. Cynnull
Cerdd
Cyffes
Emyn
2. Darlleniad
3. “Ledio’r emyn”
4. Emyn y Sul
5. Gweddiau
6. Cloi
Emyn
Bendith



Gosber

Cwincwagesima

Cynnull

Cyn llunio'r byd,
fe'n dewisodd yng Nghrist
i fod yn bobl sanctaidd;
I'n dwyn i undod yng Nghrist;
ger ei fron mewn cariad.
Gras gogoneddus Duw,
Yn rhad rodd i ni yn yr Anwylyd.

Cynnull Cerdd

Daliai Duw yn ei law
Belen fach. Edrych, meddai.
Edrychodd y mab. Ymhell bell,
Megis drwy ddŵr, gwelodd
Dir crin ffyrnig
Ei liw. Llosgai'r goleuni
Yno; taenai adeiladau cramennog
Eu cysgodion: a deffrodd
O'i chwsg cylchog
Sarff lachar, afon, yn loyw
O lysnafedd.

Ar gopa moel

Safai un goeden foel
Yn felan ar yr wybren. A phobl lawer
Yn estyn breichiau brau
Tuag ati, fel pe'n disgwyl
I ryw Ebrill dihangol
Ddychwelyd i'w changhennau
Cytgroes. Gwyliai'r mab
Y dyrfa. Gad i mi fynd yno, meddai.

Cyrchfan

R. S. Thomas

Cyfieithiad
Siôn Aled

Cynnull Cyffes

Mae Crist yn dwyn i'r amlwg
y pethau cudd,
ac yn datgelu dibenion y galon.

Pan guddiwn rhag y gwir,
gan galedu ein calonau,
maddau i ni a'n bywiocáu ni, O Dduw.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.
Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Cynnull Cyffes

Aberthodd Crist ei hun drosom,
ei ddioddefaint er ein mwyn.

Pan drown ni'n cefn
ar boen a braw eraill,
yn gynnil hefo'th gariad,
maddau i ni a'n bywiocáu ni, O Dduw.

Crist, trugarhâ wrthym.
Crist, trugarhâ wrthym.

Cynnull Cyffes

Mae'r hyn y mae Crist
wedi'i baratoi ar gyfer
y rhai sy'n ei garu
yn cael ei ddatgelu inni trwy'r Ysbryd.

Pan anwybyddwn d'alwad,
yn brysur yn lle'n llonydd ynot ti,
maddau i ni a'n bywiocáu ni, O Dduw.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.
Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Cynnull Cyffes

Bydded i Dduw hollalluog,
sy'n maddau i bawb
sy'n wir edifeiriol,
drugarhau wrthych
a'ch rhyddhau o bechod,
eich cadarnhau mewn daioni
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Cynnull Emyn

lesu, Geidwad bendigedig,
ffrind yr egwan a'r methedig,
tyner ydwyt a charedig;
rho dy ras yn nerth i ni.

lesu, drosom buost farw
ar y croesbren creulon, garw:
dirfawr werth yr aberth hwnnw
egyr byrth y nef i ni.

1,2/3

Geiriau

Percy Dearmer (1867-1936)

Cyfieithiad

J. T. Jones (1894- 1975)

Tôn "Quem pastores laudavere"

Alaw Tsiecaidd

Cynnull Emyn

Iesu, gwyddost ein meddyliau,
ein llawenydd a'n gofidiau;
rho dy ras i'n tywys ninnau
i'th wirionedd sanctaidd di.

3/3

Geiriau

Percy Dearmer (1867-1936)

Cyfieithiad

J. T. Jones (1894- 1975)

Tôn “Quem pastores laudavere”

Alaw Tsiecaidd

Darlleniad *Mathew 17:1-9*

Darlleniad o ail bennod ar bymtheg yr Efengyl yn ôl Sant Mathew, gan ddechrau darllen o'r adnod gyntaf.

Bryd hynny: Dyma Iesu'n cymryd Pedr ac lAGO ac IOAN ei frawd, ac yn mynd â hwy i fynydd uchel o'r neilltu.

Darlleniad *Mathew 17:1-9*

A gweddnewidiwyd ef yn eu gŵydd hwy, a disgleiriodd ei wyneb fel yr haul, ac aeth ei ddillad yn wyn fel y goleuni. A dyma Moses ac Elias yn ymddangos iddynt, yn ymddiddan ag ef. A dywedodd Pedr wrth Iesu, "Arglwydd, y mae'n dda ein bod ni yma; os mynni, gwnaf yma dair pabell, un i ti ac un i Moses ac un i Elias."

Darlleniad *Mathew 17:1-9*

Tra oedd ef yn dal i siarad, dyma gwmwl golau yn cysgodi drostynt, a llais o'r cwmwl yn dweud, "Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu; gwrandewch arno."

Darlleniad *Mathew 17:1-9*

A phan glywodd y disgyblion hyn syrthiasant ar eu hwynebau a chydiodd ofn mawr ynddynt. Daeth Iesu atynt a chyffwrdd â hwy gan ddweud, "Codwch, a pheidiwch ag ofni." Ac wedi edrych i fyny ni welsant neb ond Iesu yn unig.

Darlleniad *Mathew 17:1-9*

Wrth iddynt ddod i lawr o'r mynydd gorchmynnodd Iesu iddynt, "Peidiwch â dweud wrth neb am y weledigaeth nes y bydd Mab y Dyn wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw."

Dyma ddiwedd y darlleniad.


Ledio'r emyn Emyn y Sul

Geiriau
Elfed
(Howell Elvet Lewis,
1860-1953)

Tôn "Hyfrydol"
R. H. Pritchard
(1811-1887)

← Haleliwia! Haleliwia!
Seinier mawl i'r uchel Dduw


Elfed, Howell Elvet Lewis
(1860-1953)







Elfed, Howell Elvet Lewis
(1860-1953)





“tragwyddoldeb sydd yn olau:
Haleliwia byth! Amen.



Emyn y Sul

1/3

Geiriau
Elfed
(Howell Elvet Lewis,
1860-1953)

Tôn “Hyfrydol”
R. H. Pritchard
(1811-1887)

Haleliwia! Haleliwia!
Seinier mawl i'r uchel Dduw;
ef yw Brenin y brenhinoedd,
Arglwydd yr arglwyddi yw:
pwysa eangderau'r cread
byth ar ei ewyllys gref;
ein gorffwysfa yw ei gariad:
Haleliwia! Molwn ef.

Emyn y Sul

2/3

Geiriau
Elfed
(Howell Elvet Lewis,
1860-1953)

Tôn “Hyfrydol”
R. H. Pritchard
(1811-1887)

Haleliwia! Haleliwia!

Gwylio mae bob peth a wnaed;
cerdd mewn nerth drwy'r uchelderau
a'r cymylau'n llwch ei draed:
ynddo mae preswylfa'r oesau;
dechrau, diwedd popeth yw;
newydd beunydd yw ei ddoniau:
Haleliwia! Molwn Dduw.

Emyn y Sul

3/3

Geiriau
Elfed
(Howell Elvet Lewis,
1860-1953)

Tôn "Hyfrydol"
R. H. Pritchard
(1811-1887)

Haleliwia! Haleliwia!

Yn ei Fab daeth atom ni;
cyfuwch â'i orseddfainc ddisglair
yw y groes ar Galfarî:
ef yw sicrwydd ei arfaethau,
ef mewn pryd a'u dwg i ben;
tragwyddoldeb sydd yn olau:
Haleliwia byth! Amen.

Gweddiâu

Gweddïau

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneuler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Gweddïau

Goleuau ein tywyllwch, ni a atolygwn i ti, O Arglwydd; a thrwy dy fawr drugaredd amddiffyn nyni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon; er serch ar dy unig Fab, ein Hiachawdwr Iesu Grist.

Amen.

Cloi Emyn

Y mae'r dyddiau'n dod i ben,
Haleliwia,
y dyrchefir Brenin nen,
Haleliwia;
fe â dwyfol angau drud,
pen Calfaria,
drwy ardaloedd pella'r byd:
Haleliwia!

1/2

Geiriau

William Williams, Pantycelyn
(1717-1791)

Tôn "Llanfair"

Robert Williams (1782-1818)

Cloi Emyn

Dyma sylfaen gadarn iawn,
Haleliwia;
doniau'r nef sydd ynnddo'n llawn,
Haleliwia;
daear faith, nac uchder nef
ni ddatguddia
arall debyg iddo ef –
Haleliwia.

2/2

Geiriau

William Williams, Pantycelyn
(1717-1791)

Tôn “Llanfair”

Robert Williams (1782-1818)

Cloï

Dduw'n dyddiau ni a'th gread dithau,
Cynnal ni yn nhragwyddoldeb.

Dduw'r ddelwedd
sy'n ddwfn o'n mewn,

Bydd inni'n gwmni ar ein taith.

Dduw, sy'n ymsymud fyth â chariad,
Tyrd i iacháu'n byd toredig.

Dduw'n cyrchfan a'n dyfodol,

**Boed i'n bywydau atseinio ynot ti,
nawr a hyd byth.**

Cloi

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Bydded i Dduw a'ch galwodd
i'w ogoniant tragwyddol yng Nghrist,
eich hadfer, eich cadarnhau
a'ch nerthu;

a bendith Duw hollalluog,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,

a fo yn eich plith

ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Gosber



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor